

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y cyfarfod arbennig a gynhaliwyd yn rhithiol ar 29 Gorffennaf 2021

**YN BRESENNOL:** Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)  
Cynghorydd Dafydd Roberts (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr R Dew, Jeff Evans, John Griffith, Richard Griffiths, K P Hughes, T LI Hughes MBE, Vaughan Hughes, Llinos Medi Huws, A M Jones, Carwyn Jones, Eric Wyn Jones, G O Jones, R Meirion Jones, Alun W Mummery, Bryan Owen, Bob Parry OBE FRAGS, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Nicola Roberts, P S Rogers, Dafydd Rhys Thomas a Robin Williams.

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,  
Dirprwy Brif Weithredwr,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,  
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cmdeithasol.  
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,  
Pennaeth gwasanaethau Democrataidd,  
Rheolwr Gwasanethau Pensaerniol (GT),  
Swyddog Pwyllgor (MEH).

**HEFYD YN  
BRESENNOL:** Dim

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Richard O Jones, J A Roberts ac Ieuan Williams.

\* \* \* \* \*

### CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Cafwyd y cyhoeddiadau canlynol gan y Cadeirydd:-

Dymuniadau gorau am wellhad buan i frawd y Cynghorydd Aled M Jones wedi iddo fod mewn damwain yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd Alun Mummery a'i deulu wedi iddo golli ei or-wyres yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd â'r Cynghorydd T LI Hughes MBE a'i deulu wedi iddo golli ei frawd yng nghyfraith yn ddiweddar.

Cydymdeimlwyd hefyd ag unrhyw Aelod arall o'r Cyngor neu Aelod o Staff sydd wedi dioddef profedigaeth yn ddiweddar.

## **1. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Bu'r Cynghorydd Dylan Rees ddatgan diddordeb personol yn Eitem 3 - Canolfan Addysg y Bont - atgyweirio'r to. Yn dilyn derbyn barn gyfreithiol, roedd modd i'r Cynghorydd Rees gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio mewn perthynas â'r eitem.

## **2. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r canlynol:-

**“O dan Adran 100 (A)(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig.”**

## **3. CANOLFAN ADDYSG Y BONT, LLANGEFNI – ATGYWEIRIO'R TO**

Cyflwynwyd - adroddiad gan y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo mewn perthynas â'r uchod.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo fod angen gwneud gwaith atgyweirio sylweddol i strwythur y to yng Nghanolfan Addysg y Bont gan ei fod wedi dod i'r amlwg fod rhannau sylweddol o'r to yn anniogel o ganlyniad i ddŵr yn cael mynediad drwy strwythur y to. Mae angen gwneud y gwaith o drwsio'r to fel mater o frys a hynny er mwyn i'r disgyblion allu dychwelyd i'w hysgol cyn gynted â phosibl ac er mwyn atal strwythur yr adeilad rhag dirywio ymhellach.

Rhoddodd y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo a'r Rheolwr Gwasanaethau Pensaernïol ddiweddariad llafar am y sefyllfa bresennol yng Nghanolfan Addysg y Bont a chyflwynodd yr adroddiad ysgrifenedig a oedd eisoes wedi'i gyflwyno i Aelodau. Adroddodd y Pennaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo ymhellach ar yr opsiynau amgen a oedd yn cael eu hystyried ar gyfer lletya'r disgyblion yn dilyn gwyliau'r haf, tan i'r gwaith o atgyweirio'r to gael ei gwblhau.

Cadarnhawyd fod trafodaethau cyfreithiol o ran atebolrwydd yn cael eu cynnal ar hyn o bryd.

Holwyd cwestiynau pellach gan Aelodau a bu Swyddogion ymateb i'r cwestiynau hynny.

Roedd Aelodau'r Cyngor Sir yn gytûn mai llesiant y disgyblion a effeithiwyd gan y gwaith angenrheidiol o atgyweirio'r to yng Nghanolfan Addysg y Bont oedd y flaenoriaeth ac y dylai unrhyw aflonyddwch i'w haddysg gael ei gadw i'r lefel isaf a oedd yn rhesymol bosibl.

**Yn dilyn y bleidlais lle'r oedd 21 o blaid a 2 yn atal eu pleidlais,  
PENDERFYNWYD awdurdodi:-**

- **Bod y Cyngor yn awdurdodi rhyddhau hyd at £1.5 Miliwn o Gronfeydd Wrth Gefn Cyffredinol y Cyngor er mwyn ymgymryd â gwaith adfer i ddarparu gorffeniad to newydd.**
- **Y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo) i ymgymryd â'r gwaith sy'n angenrheidiol i nodi'r rhesymau pam fod adeiladwaith y to yn ddiffygiol ac i wneud y trefniadau angenrheidiol ar gyfer dylunio ac adeiladu'r gwaith adfer.**
- **Y Pennaeth Gwasanaeth (Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo), mewn ymgynghoriad â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a'r Pennaeth Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i barhau â hawliad i adennill costau'r gwaith adfer, ynghyd â'r holl gostau cysylltiedig eraill, gan unrhyw barti y bernir eu bod yn atebol am adeiladwaith diffygiol y to.**

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES  
CADEIRYDD**